## CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL CANOLBARTH CYMRU

**Teitl yr Adroddiad: Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru**

| | |
|---|---|
| **Diben yr Adroddiad** | Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru |
| **Argymhelliad** | Bod aelodau Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru a'u bod yn eu swyddi tan ddyddiad y cyfarfod blynyddol nesaf. |
| **Awdur yr Adroddiad** | Nicola Williams |
| **Swyddog Cyllid** | Amherthnasol |
| **Swyddogion Cyfreithiol** | Clive Pinney / Elin Prysor |

**Cefndir:**

1. Rhaid i gyfarfodydd Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru ("CCC") gael eu cadeirio gan y cadeirydd a benodwyd gan aelodau CCC, neu os yw'r cadeirydd yn absennol, gan yr is-gadeirydd.

2. Yn ystod cyfarfod cyntaf CCC, y busnes cyntaf i'w drafod yw penodi cadeirydd ac is-gadeirydd, a rhaid i aelod cyngor ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion gadeirio'r cyfarfod nes bod cadeirydd yn cael ei benodi (ac yna bydd y cadeirydd yn cadeirio gweddill y cyfarfod).

3. Ym mhob cyfarfod blynyddol CCC rhaid i benodiadau parhaus y cadeirydd a'r is-gadeirydd gael eu cadarnhau, neu, rhaid penodi cadeirydd newydd neu is-gadeirydd newydd, neu'r ddau.

4. Rhaid penodi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd o blith aelodau CCC o'r cynghorau cyfansoddol. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes hawl gan Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol gael eu hethol fel cadeirydd neu is-gadeirydd.

5. Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd gael eu penodi neu eu cadarnhau gan aelodau CCC ac unrhyw aelodau eraill sydd â hawl i bleidleisio ar y mater.

6. Gall person a benodir fel cadeirydd neu is-gadeirydd ymddiswyddo o’r swyddi hynny ar unrhyw adeg drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i’r aelodau eraill.

7. Os daw swydd wag i’r fei o ran swydd y cadeirydd neu’r is-gadeirydd, rhaid gwneud penodiad i’r swydd wag honno yng nghyfarfod cyntaf CCC a gynhelir ar ôl i’r swydd wag honno ddod i’r fei.

8. Os nag oes unrhyw un yn gweithredu swydd y cadeirydd, yna gall yr is-gadeirydd gyflawni swyddogaethau’r cadeirydd nes bod y swydd wag wedi ei llenwi.

9. Pan fo swyddi’r cadeirydd a’r is-gadeirydd yn wag ar yr un pryd, rhaid i gyfarfod CCC gael ei gadeirio, nes bod rhywun yn cael ei benodi i un o’r swyddi, gan aelod cyngor o Gyngor Sir Ceredigion.

10. Dylai aelodau nodi nad oes pleidlais fwrw gan y Cadeirydd ac eithrio mewn perthynas â chynllunio strategol.

**Effaith Ariannol:**

11. Nid oes unrhyw effaith ariannol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**Asesiad Effaith Integredig:**

12. Mae CCC yn amodol ar Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a rhaid iddo wrth ymarfer ei swyddogaethau dalu sylw dyledus i’r anghenion canlynol:

- Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Deddfau.
- Symud ymlaen o ran cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd a ddiogelir a’r rheini nad ydynt.
- Maethu perthnasoedd da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd a ddiogelir a’r rheini nad ydynt.
- Darparu deilliannau gwell i’r bobl hynny sy’n profi anfantais cymdeithasol-economaidd.
- Ystyried cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg.
- Trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â’r Saesneg.
- Sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

13. Mandad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw bod rhaid i gyrff cyhoeddus gyflawni datblygiad cynaliadwy. Ystyr datblygiad cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygiad cynaliadwy, a anelwyd at gyflawni'r 'nodau llesiant'.

14. Nid oes gofyniad am Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod sefydlu CCC wedi ei danategu gan ddeddfwriaeth a bod yr adroddiad hwn i sefydlu trefniadau llywodraethiant yn unol â deddfwriaeth. Caiff hyn ei adolygu a bydd unrhyw adroddiadau yn y dyfodol yn ystyried a oes angen ystyriaeth ar bob effaith.

**Effaith ar y Gweithlu:**

15. Nid oes unrhyw effaith ar y gweithle yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**Effaith Cyfreithiol:**

16. Mae Rhan 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gwneud darpariaethau ar gyfer sefydlu, drwy reoliadau, Cydbwyllgorau Corfforaethol (CCau) a bydd cydymffurfiad â hyn a goblygiadau deddfwriaethol eraill wrth sefydlu CCau. Yn benodol, daeth Rheoliadau Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru i rym ar 1 Ebrill 2021, gan osod fframwaith cychwynnol er enghraifft, y dylai Cydbwyllgor Corfforaethol gael ei sefydlu, a'r cyfyngiadau amser ar gyfer rhyddhau swyddogaethau penodol. Fodd bynnag, mae cyfres o Reoliadau pellach yn cael eu drafftio a'u hymgynghori gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorffen ei hymgynghoriad ar Reoliadau Cydbwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ganllaw statudol drafft. Bydd trydydd cam y Rheoliadau yn gosod deddfwriaeth bellach mewn lle ar gyfer gweithredu'r CCau a'u swyddogaethau, ac mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Bydd pedwerydd cam yn gosod unrhyw ddarpariaethau sy'n weddill mewn lle, y gallai fod eu hangen ar Gydbwyllgorau Corfforaethol.

**Effaith ar Reoli Risg:**

17. Ni fyddai modd cynnal cyfarfodydd Cydbwyllgorau Corfforaethol heb fod cadeirydd penodol yn cael ei benodi.

**Ymgynghoriad:**

18. Nid yw’n ofyniad cael ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r adroddiad hwn.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

19. Er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol mewn lle ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforaethol

**Gweithredu’r Penderfyniad:**

20. Caiff y penderfyniad hwn ei gynnig er mwyn ei weithredu ar unwaith

**Atodiadau:**

21. Dim

**Rhestr o Bapurau Cefndir:**

22. Dim